# Prosbectws Ysgol Gynradd Gymunedol Llannon



# Prosbectws
# Ysgol Gynradd
# Gymunedol Llannon

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf i'ch croesawu chi a'ch plentyn/plant i Ysgol Gymunedol Gynradd Llannon. Mae'r ysgol yn un hapus a chartrefol ac yn weithgar iawn yn y gymuned. Ein dymuniad ni fel staff yw bod eich plentyn/plant yn hapus yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd priodol yn y meysydd cwricwlaidd ac felly rydym yn eich annog i gymryd rhan yn gyfan gwbl ym mywyd yr ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion yn fawr a chredwn y dylai eu hamser yn yr ysgol gynradd fod yn un boddhaus a gwerthfawr.

Diolch yn fawr iawn am ddewis Ysgol Llannon.

Yn gywir,
N.Davies (Pennaeth)



Pob ffotograff yn ddarostyngedig i hawlfraint LGGL © 2020

# CYNNWYS


Yr Ysgol ........................................ 1
Cyfeiriad ........................................ 1
Staff ........................................ 1
Llywodraethwyr ........................................ 1
Oriau'r Ysgol ........................................ 1
Categori Iaith ........................................ 2
Ein Bwriad ........................................ 2
Ein Gweledigaeth ........................................ 2
Ein Gwerthoedd ........................................ 4
Amcanion yr Ysgol ........................................ 4
Y Cwricwlwm ........................................ 4
Addysg Grefyddol ........................................ 7
Gwaith Cartref ........................................ 7
Addysg Rhyw ........................................ 8
Addysg Gorfforol a Gweithgareddau Chwaraeon ........................................ 8
Gwersi Offerynnol ........................................ 9
Asesu ........................................ 9
Gofal Bugeiliol ........................................ 10
Cyngor Ysgol ........................................ 11
Gwisg Ysgol ........................................ 11
Anghenion Dysgu Ychwanegol ... 11
Disgyblaeth a Rheolau'r Ysgol .... 11
Cytundeb Cartref/Ysgol ........................................ 12
Trefniant ........................................ 12
Derbyn Plant ........................................ 12
Cyfle Cyfartal ........................................ 13
Disgyblion ag Anabledd ........................................ 13
Canllawiau Amddiffyn Plant yr Ysgol ........................................ 14
Diogelwch ........................................ 14
Cyswllt â Rhieni ........................................ 15
Cau'r Ysgol yn Ystod Tywydd Garw ........................................ 15
Polisi Absenoldeb ........................................ 15
Gwyliau Teuluol a Gymerir Adeg Tymor ........................................ 16
Casglu Data ........................................ 17
Damweiniau a Moddion ........................................ 17
Gwasanaethau Cefnogol ........................................ 17
Cinio Ysgol ........................................ 17
Arian yn yr Ysgol ........................................ 18
Clybiau ar ôl Ysgol ........................................ 18
Gweithgareddau'r Ysgol ........................................ 18
Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ........................................ 19
Sut i Wneud Achwyniad ........................................ 19
*Nodiadau ar gyfer y flwyddyn........20*


Er i ni wneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir, mae'n bosibl y bydd rhai newidiadau'n digwydd wrth i'r flwyddyn ysgol fynd rhagddi. Hysbysir rhieni drwy gyfrwng llythyr am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol.

## YR YSGOL

Ysgol gynradd 4-11 oed sydd wedi ei lleoli ym mhentref Llannon yw Ysgol Llannon. Lleolir tua hanner ffordd rhwng trefi Aberystwyth ac Aberaeron ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Ceredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

## CYFEIRIAD

Ysgol Gymunedol Llannon
Stryd yr Ysgol
Llannon
Ceredigion
SY23 5HX

| | |
|---|---|
| We: | www.llannon.ceredigion.sch.uk |
| E-bost: | DaviesN964@llannon.ceredigion.sch.uk |
| | prif@llannon.ceredigion.sch.uk |
| Twitter: | @Ysgol_Llannon |
| Ffôn: | 01970 202 478 |

## STAFF

| | |
|---|---|
| Pennaeth: | N. Davies |
| Athrawon: | E. Lionel-Williams |
| | E. Davies |
| | M. Lewis |
| Cynorthwyydd Addysgu: | N Jones |
| | E. Hosken-Jones |

## LLYWODRAETHWYR

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â chynnal a chodi safonau o fewn yr ysgol.

Cadeirydd y corff llywodraethol yw **Gareth Evans.**

## ORIAU'R YSGOL

| | |
|---|---|
| Bore | 9.00 - 12.00 |
| Amser Chwarae: | 10.30 - 10.45 |
| Amser Cinio: | 12.00 - 13.00 |
| Prynhawn: | 13.00 - 15.30 |
| Amser Chwarae: | 14.30 – 14.45 |

## CATEGORI IAITH

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol.
Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.

Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Gyda disgyblion Derbyn i flwyddyn 2, mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth.

O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

## EIN BWRIAD

- I annog y gorau o bob plentyn ac i'w helpu i gyrraedd eu llawn potensial.
- I roi addysg ein plant yn gyntaf ac i anelu at welliant parhaus.
- I annog plant i reoli eu dysgu gydag annibyniaeth gynyddol.
- I greu ysgol gall y gymuned fod yn falch ohoni.

## EIN GWELEDIGAETH

Rydym yn falch iawn o rannu ein pwrpas strategol a'n dyheadau ar gyfer pob disgybl. Mae ein gweledigaeth wedi'i creu mewn partneriaeth, wedi ei lywio gan ein cymuned ac yn eiddo i'n plant, staff, llywodraethwyr a rhieni. Buom yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r disgyblion, rhieni, rhandeilliaid a'r gymdeithas ehangach er mwyn sicrhau llais i bawb.

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel sy'n gefnogol o ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi ac yn ymdrechu i gyrraedd ei lawn botensial mewn diwylliant o ysbrydoliaeth lle mae llwyddiant yn cael ei ddathlu.

Mae ysgol Llannon yn credu'n gryf mai disgyblion dylai fod wrth wraidd y broses addysgu a dysgu ac y dylai disgyblion berchnogi eu hysgol a gwneud dewisiadau gwybodus yn gyson ynglŷn â beth a sut maent yn ei ddysgu ac felly mae gwreiddio'r 12 egwyddor addysgeg isod i gyflawni'r weledigaeth yn hanfodol.



- cynnal ffocws cyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
- cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- annog cydweithio
- herio pob un o'r disgyblion trwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech gynaledig wrth fodloni disgwyliadau sy'n uchel ond y mae modd iddynt eu cyflawni
- defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol
- gosod tasgau ac yn dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- creu cyd-destunau go iawn ar gyfer dysgu
- defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- atgyfnerthu cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn rheolaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion eu hymarfer
- defnyddio cyfuniad o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
- ymestyn oddi mewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad

**| CREADIGRWYDD ♦ ANNIBYNIAETH ♦ GWYTNWCH**

## EIN GWERTHOEDD

- I greu gwerthoedd positif tuag at ddysgu.
- I gynnig anogaeth a chefnogaeth ar bob adeg, codi hunanhyder ac hunanwerth.
- I greu amgylchedd gofalus, ysbrydoledig lle gall y disgyblion dyfu a dysgu.
- I ddathlu cyrhaeddiad a llwyddiannau.

## AMCANION YR YSGOL

- I roi sylw unigol a theg i bob plentyn.
- I sicrhau fod pob plentyn yn datblygu ac yn gweithio hyd eithaf ei gallu.
- I greu awyrgylch deuluol hapus mewn amgylchedd deniadol.
- I sicrhau fod yna berthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol.
- I feithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar gan gynnwys y gallu i holi a dadlau'n rhesymegol ac ymroi i dasgau. Dylent hefyd ddatblygu medrau corfforol.
- I ddatblygu dealltwriaeth, gwybodaeth a medrau sy'n berthnasol i fywyd oedolion a chyflogaeth mewn byd sy'n newid yn gyflym.
- I ddefnyddio iaith, rhif a chymhwysedd digidol yn effeithiol.
- I feithrin gwerthoedd moesol personol, parch at werthoedd crefyddol a goddefgarwch at hiliau a chrefyddau eraill.
- I ddeall y byd y maent yn byw ynddo a chyd-ddibyniaeth unigolyn, grwpiau a chenhedloedd.
- I werthfawrogi cyflawniadau a dyheadau dynol.

## Y CWRICWLWM

Mae'r cwricwlwm wedi ei lunio er mwyn sicrhau mynediad i bawb gan ystyried oed, gallu, lefel cymorth a diddordebau'r disgyblion.

Os yw'r staff yn adnabod bod disgybl yn cael anhawster/au neu os yw rhiant yn codi consyrn am ddatblygiad plentyn bydd yr ysgol yn gwneud asesiad o'r angen/anghenion dysgu ychwanegol ac yn darparu'n briodol drwy ei osod ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol sydd yn arwain at gynllun o ymyrraeth addas neu yn gwahaniaethu'n bwrpasol ar ei gyfer/chyfer ar lawr y dosbarth.

Mae ein cwricwlwm yn seiliedig ar gynnwys y pedwar diben craidd ac yn ceisio gwireddu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob disgybl ac felly mae ein cwricwlwm wedi ei lunio i ddatblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo'r sgiliau cyfannol isod sy'n sail i'r pedwar diben sef,

- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Effeithiolrwydd personol



Yn fwy aml na pheidio, mae llais y disgybl yn llywio gweithgareddau ar lawr a thu hwnt i'r dosbarth.

Yn Ysgol Gynradd Llannon, anogwn ein disgyblion i...

- Ddatblygu Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn ei holl ffyrdd, er mwyn iddynt fod yn ddulliau pwrpasol ac ystyrlon o gyfathrebu, gan gynnwys gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a gwerthfawrogi llên yn y famiaith a'r ail iaith;
- Ddatblygu medrau a deallusrwydd Mathemategol a Rhifedd;
- Ddatblygu medrau a deallusrwydd Gwyddonol a Thechnolegol mewn byd sy'n gyflym newid;
- Ddatblygu hunan fynegiant a'r Celfyddydau Mynegiannol trwy gerddoriaeth, drama, celf a dylunio ynghyd â dylunio a thechnoleg;
- Ddatblygu'r Dyniaethau yn ei chyfanrwydd drwy:
    - ◊ Feithrin deallusrwydd am yr amgylchedd a'r byd o'u cwmpas, e.e. drwy wersi byw, Cyngor Eco, Ysgolion Iach, a.y.y.b;
    - ◊ Greu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o gymdogaeth, iaith, diwylliant ac amgylchedd y disgybl a bod yn ymwybodol o gyfnodau a mannau eraill; a
    - ◊ Pharchu crefyddau a diwylliannau amrywiol.
- Ddatblygu Iechyd a Lles drwy:
    - ◊ Ddarparu cwricwlwm pwrpasol a llawn ar gyfer addysg gorfforol;
    - ◊ Feithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar, gan gynnwys y gallu i holi a dadlau yn rhesymegol ac ymateb i dasgau;
    - ◊ Feithrin hunanreolaeth wrth ddefnyddio offer a chyfarpar ym mhob agwedd o'r cwricwlwm;
    - ◊ Feithrin arferion hunanddisgyblaeth;
    - ◊ Greu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwrteisi; a
    - ◊ Hybu arferion diogelwch ac e-ddiogelwch yn yr ysgol, yn y cartref a'r gymdeithas.

Mae'r cwricwlwm yn eang ei gynnwys, yn wahaniaethol ei natur ac wedi ei strwythuro fel bod y disgyblion yn derbyn gwersi penodol yn Iaith (Cymraeg a Saesneg o 7 oed)a Mathemateg

Mae'r cwricwlwm yn cwmpasu'r cysyniadau ac yn yn darparu cyfleoedd cyfoethog a phrofiadau dysgu dilys i ddatblygu'r cysyniadau a nodir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn y 'Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'r cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol y disgyblion gan sicrhau bod rhain yn treiddio trwy'r holl feysydd dysgu a phrofiadau a bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ar gyfer Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd sy'n briodol o safbwynt datblygiad y dysgwyr ac yn darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg plwraliaethol i ddysgwyr Derbyn ac yn darparu ar gyfer addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r dysgwyr hynny ym Mlwyddyn 1 ac uwch.

Mae hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol a CCUHP yn ganolog i'r cwricwlwm.

## ADDYSG GREFYDDOL

Cynhelir gwasanaeth Cristnogol ysgol gyfan yn rheolaidd a chynhelir myfyrdod/gwasanaeth Cristnogol byr bob bore. Bydd y gwasanaeth fel rheol o dan ofal y Pennaeth ond o bryd i'w gilydd disgwylir i'r disgyblion gymryd rhan trwy ddarllen, canu, adrodd neu/a chwarae offeryn. Mae'r ficer yn cymryd y gwasanaeth ar achlysuron. Mae'r hawl gennych chi i dynnu eich plentyn/plant allan o'r cyfnodau crefyddol ond disgwylir i chi anfon llythyr swyddogol i'r Pennaeth yn esbonio'ch rhesymau. Dysgir Addysg Grefyddol i bob plentyn yn yr ysgol. Mae'r gwersi yn cynnwys dysgu am grefyddau eraill fel rhan o'r cynllun gwaith. Gall rieni eithrio eu plentyn o wersi Addysg Grefyddol drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth.

## GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd drwy'r ysgol. Gosodir gwaith ychwanegol ar gais rhieni ac anogir y disgyblion i ddarllen adref. Mae croeso i bob disgybl i fenthyg llyfrau o'r ysgol ac anogir disgyblion y Dysgu Sylfaen i fynd â llyfrau darllen adref yn gyson. Dylid nodi bod yr ysgol yn disgwyl i rieni dalu am unrhyw adnodd/llyfr sydd yn dychwelyd i'r ysgol mewn cyflwr annerbyniol.

## ADDYSG RHYW

Yn Ysgol Llannon credwn yn gryf y dylai ein disgyblion dderbyn y wybodaeth, y profiadau, y sgiliau a'r gefnogaeth sy'n eu galluogi i fyw bywydau hapus, iach a llwyddiannus. Mae meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol yn allweddol i gyflawni hyn. Wrth wreiddio addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) yn ein cwricwlwm, bydd disgyblion yn dysgu sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel a gallu adnabod sefyllfaoedd niweidiol, yn enwedig mewn cymdeithas sy'n dechnolegol ddatblygedig. Yn ganolog i'r dysgu hwn mae gwybod eu hawliau a gallu nodi pryd a sut i gael cymorth. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei haddysgu ar draws y cwricwlwm a bydd yn gynhwysol ac yn briodol o ran datblygiad a gaiff ei dylanwadu gan yr hyn y mae ein disgyblion yn ei wybod, yr hyn y maent yn meddwl y maent yn ei wybod a'r hyn y mae angen iddynt ei wybod. Mae ACRh yn ofyniad gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr 3-16 oed ac nid yw bellach yn bosibl tynnu'n ôl o ACRh.

## ADDYSG GORFFOROL A GWEITHGAREDDAU CHWARAEON

Mae chwaraeon a gweithgareddau cysylltiedig yn bwysig o fewn y gwersi a'r profiadau a ddarperir gan yr ysgol ac fe'u hyrwyddir yn gryf. Mae'r holl ddisgyblion yn cael gwersi addysg gorfforol wythnosol ac mae'r gwersi nofio ar system rota yn ystod y flwyddyn. Cludir y disgyblion yn rhad ac am ddim ar fws i Aberaeron er mwyn derbyn y wers nofio. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn ystod tymhorau'r Nadolig a'r Pasg. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn holl gystadlaethau chwaraeon ardal ac yn cystadlu yn nigwyddiadau'r Urdd pryd bynnag y bo modd. Anogir disgyblion i ymarfer eu sgiliau yn rheolaidd a gallant gael sesiynau ychwanegol cyn unrhyw gystadleuaeth.

Mae'r ysgol hefyd yn rhan o gynllun Llysgenhadon Efydd sy'n hyrwyddo ac annog disgyblion i arwain gweithgareddau. Mae llysgenhadon yr ysgol yn cynllunio, darparu ac arwain sesiwn gemau/gweithgaredd wythnosol i bob disgybl.

Nid oes gwisg ymarfer corff na nofio penodol ond disgwylir i rieni ddarparu dillad addas ar gyfer y gweithgareddau hyn. Caniateir i ddisgyblion wisgo eu cit ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol yr ysgol er mwyn osgoi materion ac anhawsterau newid.

## GWERSI OFFERYNNOL

Anogir disgyblion i chwarae offerynnau a darperir gwersi gan athrawon peripatetig yr AALl. Mae ffi flynyddol yn daladwy i'r cyngor am wersi ond os bydd rhiant neu ddisgybl yn dangos diddordeb yna bydd amgylchiadau personol yn cael eu trafod gyda'r ysgol yn unigol.

Fodd bynnag, disgwylir i ddisgybl sy'n derbyn gwersi ymrwymo i ymarfer rheolaidd.

## ASESU

Mae trefniadau ar gyfer asesu yn rhan annatod o'r ymarfer dydd i ddydd sy'n addas i bob dysgwr. Mae'r trefniadau yn cynnwys gwneud asesiadau wrth dderbyn disgyblion, a chynnal yr asesiadau hynny i bob plentyn/disgybl ar adegau penodol er mwyn sicrhau asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol. Mae'r trefniadau yn cynnwys cyfleoedd i weithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, cynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion a darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr fel eu bod yn deall cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.



## GOFAL BUGEILIOL

Y Pennaeth sy'n rheoli'r drefniadaeth fewnol, cwrs addysg, rheolaeth a disgyblaeth yr ysgol. Mae'r athro/athrawes yn gyfrifol am les ac addysg ei ddosbarth/dosbarth. Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb gais oddi wrth y rhieni. Bydd cyfrifoldeb y Pennaeth a'r athrawes/athro am y plant yn cychwyn am 8:45 y bore ac yn dod i ben am 3:45 y prynhawn.

## CYNGOR YSGOL

Mae'r ysgol wedi sefydlu cyngor ysgol sef corff o ddisgyblion sydd wedi'i ethol i gyfleu a chynrychioli anghenion ac amcanion pob disgybl o fewn yr ysgol mewn trafodaethau ffurfiol a'r staff dysgu a'r staff ategol. Prif bwrpas y Cyngor yw bod yn llais cryf a phendant i'r disgyblion er mwyn iddynt hwy gyfrannu mewn ffordd bositif ac effeithiol at wella ethos, amcanion, safonau a disgwyliadau'r ysgol. Mae'r Cyngor yn sicrhau strwythur a threfn i farn ac anghenion yr ysgol gyfan gan gynnwys yr athrawon a'r staff ategol. Mae'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd ac yn llais arbennig i ddisgyblion yr ysgol. Maent yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gan adrodd yn ôl i'r llywodraethwyr yn flynyddol mewn cyfarfod llawn. Mae'r disgyblion hefyd yn datblygu nifer o is-gynghorau/pwyllgorau. Gall y rhain amrywio'n flynyddol ond maent bob amser yn cynnwys 'Criw Cymraeg' a 'Dewiniaid TG'.

Anogir y rhain i fod yn annibynnol a hunan-arweiniol ond mae staff bob amser wrth law i helpu.



## GWISG YSGOL

Anogir y disgyblion i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol, sef:

| Merched | Bechgyn |
|---|---|
| Crys chwys yr ysgol | Crys chwys yr ysgol |
| Sgert/Trowsus du | Trowsus du |
| Crys polo | Crys polo |
| Esgidiau du | Esgidiau du |

*Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth ar archebu crysau chwys a chrysau polo.*

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Rhaid cydnabod bod angen darparu ychwanegol ar ambell ddisgybl oherwydd ei anghenion addysgol neu anabledd. Caiff y disgyblion hynny'r un cyfle â phawb arall i integreiddio'n llwyr ym mywyd yr ysgol. Gall plentyn sydd angen llawer o hyfforddiant unigol gael ei gyfeirio at wasanaeth addysg arbennig yr awdurdod ar ôl trafod gyda'r rhieni. Caiff yr ysgol wasanaeth gan yr awdurdod i helpu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd gan pob disgybl ag ADY gynllun addysg unigol sy'n nodi eu targedau personol. Bydd rhain yn cael eu monitro'n gyson a'u hadnewyddu'n gyson. Mae'n bosibl i'r ysgol dderbyn disgyblion sydd ag anghenion corfforol ond mae'n ddisgwyliedig bod yr ysgol yn trafod gyda'r AALl cyn derbyn plentyn ag anghenion corfforol er mwyn asesu a yw'r ysgol yn addas gogyfer y plentyn. Byddwn yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru a thîm ADY yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â gweithredu'r system ADY newydd ar gyfer y carfannau rhagnodedig o ddysgwyr.

## DISGYBLAETH A RHEOLAU'R YSGOL

O fewn yr ysgol, anogir y disgyblion i barchu aelodau'r staff i gyd, eu cyfoedion ac eiddo. Ni ddylid byth fynd tu allan i ffiniau'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol heb ganiatâd yr athrawon. Dylid bob amser roi sbwriel mewn biniau. Pan feicir i'r ysgol, ni chaniateir defnyddio'r beic ar faes chwarae'r ysgol.

Dylid ysgrifennu enw'r plentyn yn glir ar ei ddillad yn enwedig cotiau, esgidiau ysgafn ac ar esgidiau glaw. Ni chaniateir bwyta melysion na gwm cnoi ar dir yr ysgol. Ni ddylid dod â photeli gwydr i'r ysgol. Synnwyr cyffredin yw nod y dydd.

## CYTUNDEB CARTREF/YSGOL

Rydym yn falch iawn o gael eich plentyn gyda ni yn yr ysgol. Rydyn ni am i bob plentyn deimlo'n hapus a diogel o fewn teulu'r ysgol. Rydym hefyd eisiau i'ch plentyn wneud cymaint o gynnydd â phosibl a chyrraedd ei botensial ei hun. Bydd pob aelod o staff yn gwneud ei orau glas dros bob plentyn. Os gwelwch yn dda ein gweld ar unwaith os ydych chi neu'ch plentyn yn anhapus ag unrhyw beth. Mae CYTUNDEB YSGOL/DISGYBL/RHIENI yn amlinellu disgwyliadau ac ymrwymiadau ac yn cael ei adnewyddu'n flynyddol a disgwylir i ddisgyblion, rhieni ac aelodau staff lofnodi'r contract hwn cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi. Os yw rhiant/gwarcheidwad yn poeni am y contract yna dylent drafod y mater gyda'r athro neu'r Pennaeth.

## TREFNIANT

Mae'r disgyblion yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau cymysg eu hoedran a'u gallu.
Mae pob athro yn gyfrifol am ddatblygiad cyffredinol ei ddosbarth ei hun ac addysgir y disgyblion gan ddefnyddio strategaethau amrywiol fel sy'n briodol.
Addysgir rhai agweddau ar y gwaith mewn themâu neu fel pynciau er mwyn atgyfnerthu sgiliau penodol mewn meysydd penodol.

## DERBYN PLANT

Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â pholisi'r AALl. Derbynnir disgyblion yn ystod y tymor deir gwaith y flwyddyn, sef: Ionawr 1af, Ebrill 1af a Medi 1af.

Derbynnir disgyblion y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Gofynnir i rieni darpar ddisgyblion drefnu ymweliad ymlaen llaw. Mae croeso i ddarpar riant ymweld â'r ysgol ar ôl gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda'r pennaeth. Gofynnir i rieni wneud cais am le ar-lein gan ddilyn y ddolen: www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/derbyn-i-ysgol

## CYFLE CYFARTAL

Hyrwyddir a cheisir sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn heb ystyried anabledd, cefndir ethnig, iaith na chrefydd ble mae'n bosibl. Mae cynhwysiant yn allweddol bwysig i ni yn Llannon. Ymfalchïwn yn ein gallu i gynnig addysg sydd ddim yn gwahaniaethu rhwng naill blentyn a'r llall.

## DISGYBLION AG ANABLEDD

Rydym yn annog plant gydag anabledd i fod yn rhan o bob agwedd o fywyd ysgol. Ceisiwn sicrhau cyfle cyfartal gogyfer disgyblion anabl, ond weithiau mae angen ail edrych ar sefyllfa er mwyn asesu darpariaeth gogyfer achosion unigol. Mae gan yr Awdurdod Addysg gynlluniau a phrosesau pendant i'w dilyn cyn gall ddisgybl ag anabledd ddechrau yn yr ysgol. Fe fydd yr ysgol yn dilyn canllawiau'r sir gan ystyried pob cais yn unigol. Mae mynediad gan yr anabl i gampws yr ysgol ac i brif adeilad yr ysgol. Fe fydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith adeiladu, yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion disgyblion, staff neu ymwelwyr anabl. Byddai unrhyw ddatblygiad o'r math yn cael ei oruchwylio gan swyddogion priodol er mwyn sicrhau hyn. Mae toiled staff ar gael yn yr ysgol a thoiledau addas ar gyfer gweddill y disgyblion.



## CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT YR YSGOL

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

**Pryderu am blentyn?**

Cysylltwch â'r isod os ydych yn pryderu bod plentyn yn dioddef niwed neu esgeulustod neu'n cael ei gam-drin. Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol archwilio a gweithredu i warchod y plentyn, cynnig cefnogaeth a chyngor i helpu teuluoedd i gael cymorth angenrheidiol.

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Llannon yw:

> N. Davies ac E. Lionel-Williams
> Rhif ffôn cyswllt: 01974 202 478

Llywodraethwyr â chyfrifoldeb dros Amddiffyn Plant yw :

> Cllr Keith Henson

Swyddog Enwebedig Amddiffyn Plant, Cyngor Sir Ceredigion:

> Kizzie Garner-Hughes
> Kizzie.Garner-Hughes@ceredigion.gov.uk
> 01970 633668

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag Amddiffyn Plant yn erbyn y Pennaeth.

Pan wna plentyn honiad yn erbyn aelod o'r teulu neu rywun ar yr aelwyd, *NA CHAIFF* caniatâd rhieni ei geisio gan yr ysgol i wneud atgyfeiriad at Wasanaethau Cymdeithasol Ceredigion. Bydd angen i Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu siarad â'r plentyn cyn gynted ag y bo modd os credir bod trosedd wedi'i chyflawni.

## DIOLGELWCH

Mae gan yr ysgol ffens o'i hamgylch a muriau a ffens i'r blaen. Un mynediad sydd i'r campws ac mae'r clwydi yn gadarn a chryf. Dylai pob ymwelydd adrodd i aelod o staff wrth gyrraedd, arwyddo i mewn a gwisgo bathodyn swyddogol os yw'n berthnasol. Mae staff yn gofalu am y disgyblion ar yr iard bob amser chwarae ac amser cinio. Cynhelir dril tân bob tymor ac adroddir hyn i'r llywodraethwyr. Cynhelir awdit iechyd a diogelwch yn flynyddol er mwyn cwrdd ag angenion cynnal a chadw'r adeilad.

## CYSWLLT Â RHIENI

Ein gobaith yw y byddwch yn cadw mewn cysylltiad â'r ysgol er mwyn cael gwybodaeth am gynnydd eich plentyn. Cofiwch fod croeso i rieni i'r ysgol bob amser ac os gennych unrhyw broblem yna peidiwch â phetruso i gysylltu â'r staff neu'r neu'r Pennaeth.

## CAU'R YSGOL YN YSTOD TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Os bydd anawsterau fel eira neu dywydd garw iawn rhoddir cyhoeddiad ar Radio Ceredigion i hysbysu'r rhieni fod yr ysgol ar gau. Mewn achos pan mae dirywiad yn y tywydd yn ystod y dydd, fe fydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni neu'n gwneud unrhyw drefniadau priodol.

## POLISI ABSENOLDEB

Os ydy plentyn yn absennol o'r ysgol mae'n angenrheidiol i'r rhiant/gwarcheidwad anfon nodyn i'r ysgol i egluro'r absenoldeb.

Mewn achosion o absenoldeb aml iawn, rhaid i'r Pennaeth hysbysu'r Swyddfa Addysg a darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Mewn achosion pan fydd rhaid i rieni/gwarcheidwad fynd â'u plant i glinigau deintyddol neu feddygol, rhyddheir y disgyblion o'r ysgol ar gyfer yr apwyntiad. Fodd bynnag, gofynnir i rieni/gwarcheidwad beidio â chadw eu plant adref drwy'r dydd mewn achosion o'r fath os oes modd osgoi hynny.



## GWYLIAU TEULUOL A GYMERIR ADEG TYMOR

Yn Ysgol Llannon, rydym am i'n holl ddisgyblion gyflawni llwyddiant felly mae'n bwysig fod rhieni yn gwneud eu gorau glas i gefnogi disgyblion i fynychu ysgol am y 190 o ddiwrnodau o fewn y flwyddyn academaidd lawn, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2006.

O dan y Ddeddf Addysg (1996), mae'n gyfrifoldeb i'r rhieni sicrhau fod eu mab/merch yn mynychu ysgol.

Mae presenoldeb ysgol reolaidd yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn.

**Er mwyn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu presenoldeb y disgyblion, mae ERW, ein Consortiwm Addysg Ranbarthol, wedi penderfynu na fydd Prifathrawon yn awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.**

Hyderwn y gallwch gefnogi'r polisi hwn a threfnu'ch gwyliau o gwmpas y 175 o ddiwrnodau y mae ysgolion ar gau yn ystod y penwythnosau a'r gwyliau, gan gynorthwyo ni i gefnogi'ch plentyn i gyflawni llwyddiant yn yr ysgol.

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn bwysig. Os yw'ch plentyn yn absennol disgwylir galwad ffôn a dylid dilyn llythyr i egluro'r absenoldeb. Mae cofrestr yr ysgol yn cau am 9:10 am ar gyfer sesiwn y bore ac am 1:10 pm ar gyfer sesiwn y prynhawn.



## CASGLU DATA

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid wrth i'r disgyblion gael eu derbyn i'r ysgol ac at ddibenion penodol yn ystod y flwyddyn ysgol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y data a gesglir yn gywir ac yn ddiogel. Mae gan unigolion hawliau penodol i gael gweld yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn ein hysbysiad prosesu teg.

## DAMWEINIAU A MODDION

Os caiff disgybl ddamwain yn yr ysgol, caiff driniaeth gan yr athrawon (yn ystod yr awr ginio mae'r staff ategol yn gyfrifol am ddiogelwch y disgyblion). Pan fydd plentyn yn sâl neu wedi cael damwain hysbysir y rhieni/meddyg/ysbyty (yn ôl yr angen) amdani. Pe bai'r ysgol yn methu dod i gysylltiad â'r rhieni, yna bydd rhaid mynd â'r disgybl i'r ysbyty neu at y meddyg teulu, ac yna dod i gyswllt â'r rhieni/gwarcheidwad. Ni chaniateir i athrawon roddi moddion i blant ond trwy gytundeb rhiant. Caniateir i rieni/gwarcheidwad ddod i'r ysgol yn ystod yr awr ginio i roddi moddion i'w plant eu hunain.

## GWASANAETHAU CEFNOGOL

Mae'r Gwasanaeth Iechyd i Blant Ysgol yn cynnwys:

- Archwiliad meddygol
- Profion gweld, clywed a siarad
- Gwasanaethau nyrs ysgol

## CINIO YSGOL

Mae prydau bwyd yn cael eu darparu'n ddyddiol, a chesglir yr arian cinio ar-lein drwy 'Parent Pay' sydd wedi ei drefnu gan y Cyngor Sir Ceredigion.

Os ydych chi o'r farn y gellwch gael prydau am ddim, mae croeso i chi ofyn am y ffurflenni perthnasol o'r Swyddfa Addysg. Os yw eich plant yn dymuno dod â bwyd eu hunain, gallant wneud felly a byddant yn cael eu goruchwylio fel y disgyblion eraill.

Mae rhaglen dreigl genedlaethol o brydau ysgol am ddim ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Cysylltwch â ni i drafod y mater ymhellach.

## ARIAN YN YR YSGOL

Awgrymwn na ddylai disgyblion ddod ag arian i'r ysgol. Er mwyn sicrhau na fydd colledion pan adewir yr arian mewn bagiau neu ddesgiau, dylid dangos enw'r plentyn ar amlen, pwrs neu waled.

## CLYBIAU AR ÔL YSGOL

Mae'r ysgol hefyd yn rhedeg clwb Sbaeneg ar ôl ysgol yn ystod y flwyddyn.

## GWEITHGAREDDAU'R YSGOL

Nod yr ysgol yw darparu cyfoeth o weithgareddau i ddisgyblion trwy gydol y flwyddyn ysgol, fel:

- Cymdeithas Chwaraeon Cylch Aeron
- Adran yr Urdd
- Cyngherddau ysgol
- Gwasanaethau Gŵyl Gynhaeaf/Nadolig
- Cystadlaethau'r Urdd
- Gweithgareddau cefnogi elusennau
- Eisteddfod



## PWYLLGOR FFRINDIAU'R YSGOL

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y cysylltiad sydd rhwng yr ysgol â'r gymuned. Mae'r pwyllgor yn ddolen gyswllt hanfodol bwysig ac mae llwyddiant y mudiad yn dangos y berthynas iach sy'n bodoli. Mae'r pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor i drefnu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i godi arian i'r ysgol. Defnyddir yr arian er lles eich plentyn/plant. Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'n frwd i'r gymdeithas hon. Defnyddir cronfa'r pwyllgor at bwrpas yr ysgol er mwyn lleihau costau ychwanegol rhieni ac fe'i harchwilir ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol.

## SUT I WNEUD ACHWYNIAD

Dylid trafod pob cwyn gyda'r athrawon yn y lle cyntaf. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol o fewn yr ysgol. Os na fyddai hynny wedi profi'n bosibl, dylid anfon cwyn ysgrifenedig i'r ysgol a bydd y Pennaeth yn dilyn y gyfundrefn yn unol â pholisi cwynion yr ysgol. Os fydd cwyn yn erbyn y Pennaeth, bydd rhaid cysylltu â chadeirydd y Llywodraethwyr.

**Diolch am ddarllen ein prosbectws.**

**Cysylltwch â'r ysgol i drafod ymhellach unrhyw agwedd o'r uchod.**



# Nodiadau ar gyfer y flwyddyn

## MEDI

## HYDREF

## TACHWEDD

## RHAGFYR

## IONAWR

## CHWEFROR

## MAWRTH

## EBRILL

## MAI

## MEHEFIN

## GORFFENNAF

Stryd yr Ysgol, Llannon, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 5HX

We: www.llannon.ceredigion.sch.uk • Ebost: prif@llannon.ceredigion.sch.uk
Twitter: @Ysgol_Llannon • Ffôn: 01974 202 478